Rebecca Evans AS/MS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA
SeneddFinance@senedd.cymru

5 Gorffennaf 2021

Annwyl Peredur

Hoffwn achub y cyfle hwn i'ch llongyfarch ar gael eich ethol yn gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, ac edrychaf ymlaen at barhau â'r berthynas weithio adeiladol sydd wedi datblygu rhwng y Pwyllgor a Gweinidogion Cyllid Cymru.

Hoffwn nodi'r amserlen ar gyfer cyhoeddi cyllideb flynyddol 2022-23. O dan Reol Sefydlog 20, mae'n ofynnol i'r gweinidog sy'n gyfrifol am fusnes y Senedd ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes bythefnos cyn diwedd tymor yr haf i nodi amserlen ar gyfer pryd y caiff y gyllideb ddrafft ei gosod a phryd y caiff cynnig y gyllideb flynyddol ei chyflwyno. Mae'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd bellach wedi ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Busnes. Bu'n arfer gennyf ysgrifennu at y Pwyllgor Cyllid ar yr un pryd i esbonio ein rhesymeg dros y dyddiadau cyhoeddi arfaethedig gan y byddwn hefyd yn croesawu'ch cefnogaeth ar y mater hwn.

Mae Canghellor y Trysorlys wedi nodi ei fwriad i gynnal adolygiad cynhwysfawr amlflwyddyn o wariant, sy'n golygu na fyddwn yn gwybod beth fydd ein setliad cyllidebol nes i'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant ddod i ben yn yr Hydref. O ganlyniad, ni fydd modd inni ddilyn amserlen y gyllideb sy'n cael ei defnyddio mewn blynyddoedd heb adolygiad o wariant, lle'r ydym yn cyhoeddi ein cyllideb ddrafft ar ddechrau mis Hydref. Fel yn 2019 a 2020, bydd angen cyhoeddi ein cyllideb ddrafft yn nes ymlaen yn y flwyddyn.

Mae cyhoeddi cyllideb ddrafft wrth ddysgu manylion setliad ein cyllideb mor hwyr a, gobeithio, ddarparu setliad amlflwyddyn, yn achosi nifer o heriau. Datblygwyd Protocol y Gyllideb gyda hyblygrwydd bwriadol i gydnabod amgylchiadau mor eithriadol gan gynnwys Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant y DU. Ar y sail hon rwyf yn cynnig cyhoeddi ein cyllideb ddrafft, unwaith eto, ar ddechrau toriad y Nadolig, fel yn y ddwy flynedd flaenorol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwyf yn credu y bydd hyn yn sicrhau ein bod yn paratoi yn effeithiol ar gyfer y gyllideb a darparu lefel briodol o fanylder yn nogfennau'r gyllideb, gan sicrhau hefyd fod cymaint o amser â phosibl ar gael i'r Senedd graffu arnynt.

Rydym yn darparu amserlen ar gyfer y gyllideb yn seiliedig ar gyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft ar y dyddiad hwyraf posibl cyn toriad y Nadolig. Er hynny, er nad yw'n debygol, ni allwn ddiystyru'r posibilrwydd y bydd Llywodraeth y DU'n cyhoeddi adolygiad o wariant ar ddyddiad mor hwyr fel y bydd yn effeithio'n sylweddol ar ein hamserlen ar gyfer y gyllideb. Os bydd angen hyn, mae Rheol Sefydlog 20.6 yn darparu i'r Pwyllgor wneud newidiadau i'r amserlen ar gais y Llywodraeth. Yn ddarostyngedig i hyn, ac ar y ddealltwriaeth y byddwn yn darparu amserlen gadarn cyn gynted â phosibl ar ôl i Lywodraeth y DU wneud cyhoeddiad ynghylch yr adolygiad o wariant a'i Chyllideb, hoffwn nodi yn awr ein bod yn bwriadu cyhoeddi'r Gyllideb ddrafft amlinellol a'r Gyllideb ddrafft fanwl gyda'i gilydd ar 20 Rhagfyr, a'r Gyllideb derfynol ar 1 Mawrth 2022.

Wrth gynnig y dyddiadau hyn rwyd yn ymwybodol o Reol Sefydlog 20.5 a'r trefniadau y cytunwyd arnynt rhwng Llywodraeth Cymru a Senedd Cymru mewn perthynas â'r cyfnod ar gyfer craffu. Mae Rheol Sefydlog 20.5 yn darparu, o dan amgylchiadau ‘arferol’, y dylai'r Pwyllgor Cyllid gael wyth wythnos i adrodd ar gynigion amlinellol y gyllideb a phum wythnos i'r pwyllgorau ystyried cynigion manwl y Gyllideb. Er na ellir ystyried y flwyddyn hon yn flwyddyn ‘arferol’, rwyf wedi ymrwymo o hyd i sicrhau'r craffu llawnaf posibl ar ein cynigion gwario. O ganlyniad, byddai'r amserlen yr wyf wedi'i amlinellu yn caniatáu 7 wythnos i graffu ar y Gyllideb ddrafft, yn cynnwys 4 wythnos eistedd a 3 wythnos lle na fydd y pwyllgorau'n eistedd.

O dan yr amgylchiadau hyn, byddwn yn ddiolchgar am gadarnhad y byddech yn cefnogi newid i'r dyddiadau a nodir uchod yn unol â'r ddarpariaeth a nodir mewn Rheolau Sefydlog.

Rwyf yn ddiolchgar am ddealltwriaeth y Pwyllgor a gobeithio bod y trefniadau hyn yn dderbyniol o gofio'r amgylchiadau sydd, unwaith eto, yn cael eu hachosi gan ffactorau allanol y tu allan i'n rheolaeth uniongyrchol.

Yn gywir

Rebecca

Rebecca Evans AS/MS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government